

Tribiwnlys Addysg Cymru

Plant nad oes ganddynt alluded,
a chyfeillion achos

Ynglŷn â'r canllaw hwn

Nod y canllaw hwn yw eich helpu i ddeall materion sy'n ymwneud â galluedd plentyn, a rôl cyfaill achos yn y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer darpar gyfeillion achos, ac unrhyw un sydd am wybod mwy am rôl cyfaill achos.

Mae'r Gofrestr Cyhoeddiadau yn rhestr o'r holl ganllawiau a ffurflenni. Gallwch ddod o hyd iddi [ar ein gwefan](#).

Tribiwnlys Addysg Cymru

Mae'r Tribiwnlys yn clywed ac yn gwneud penderfyniadau ar apelau am anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc, a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth ac awdurdodau lleol, ac mae ein penderfyniadau'n rhwymo mewn cyfraith.

Dewis Iaith

Mae'r Tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn inni ymateb.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Cysylltwch â'r Tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon. Gallwch hefyd gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Prif Amcan a Rhwymedigaeth i Gydweithredu

Prif fwriad y Tribiwnlys yw ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn. Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i bob parti gydweithredu â'i gilydd, ac â'r Tribiwnlys, i symud yr achos yn ei blaen. Gall hyn gynnwys cyfnewid gwybodaeth a dogfennau gyda phartion eraill, neu gydweithio â cheisiadau'r Tribiwnlys yn fwy cyffredinol.

Adnoddau Gwybodaeth

- [Deddf Cydraddoldeb 2010](#)
- [Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021](#)
- [Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021](#)
- [Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\) 2018](#)
- [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021](#)

Cynnwys

1 Galluedd a'r system anghenion dysgu ychwanegol	
- Cyflwyniad	3
- Plant nad oes ganddynt alluded o dan y system ADY	3
- Diffinio plentyn o dan y system ADY	3
- Dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion â phlant nad oes ganddynt alluedd	4
- Sut mae plentyn nad oes ganddo alluedd yn arfer ei hawliau?	4
- Pa gymorth arall sydd ar gael?	5
- Sut mae galluedd plentyn yn cael ei asesu?	5
- Pwy sydd â'r gair olaf am alluded plenty?	5
- Beth yw datganiad o alluedd?	6
- Sut mae gwneud cais i'r Tribiwnlys i gael datganiad ynghylch galluedd?	6
2 Cyfeillion achos	
- Cyflwyniad	8
- Beth yw rôl cyfaill achos?	8
- Pwy sy'n gallu bod yn gyfaill achos?	9
- Sut ydw I'n gwneud cais i fod yn cyfaill achos?	9
- Beth fydd y Tribiwnlys yn ei wneud gyda'r dystysgrif datgelu fanylach?	11
- Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddiswyddo cyfeillion achos?	11
3 Canllawiau ar gyfer cyfeillion achos	
- Pa hawliau y gall cyfeillion achos eu harfer?	12
- Pa help sydd ar gael i gyfaill achos?	13
- Ydy'r broses o wneud apêl neu hawliad yn wahanol i gyfaill achos?	13
- Oes angen caniatâd rhiant y plentyn ar gyfaill achos i wneud apêl neu hawliad?	14
- Sut alla I ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fod yn gyfaill achos?	14

1. Galluedd a'r system anghenion dysgu ychwanegol

Cyflwyniad

Mae galluedd person yn cyfeirio at ei allu i ddeall gwybodaeth, a chyfleu penderfyniad ar sail yr wybodaeth honno. Fel arfer, y rheswm nad oes gan rywun alluedd yw oherwydd nam neu amhariad ar y meddwl, neu oedran ifanc y person.

Mae pobl nad oes ganddynt alluedd yn aml yn cael eu rhyddhau o'r cyfrifoldeb o wneud penderfyniadau pwysig, neu gymryd camau penodol. O dan yr amgylchiadau hynny, gellir penodi cynrychiolwyr i weithredu er budd gorau'r person dan sylw.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf) yn diffinio'r hyn y mae'n ei olygu i blentyn nad yw'r galluedd ganddo o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Plant nad oes ganddynt alluedd o dan y system ADY

Mae'r Ddeddf yn nodi bod plentyn nad oes ganddo'r galluedd i ddeall:

- gwybodaeth neu ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi iddo mewn perthynas â'i anghenion dysgu ychwanegol; neu
- yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawliau a roddir iddo o dan y system ADY;

yn blentyn nad oes ganddo alluedd at ddibenion y Ddeddf. Mae galluedd plant yn ymwneud yn benodol â'u gallu i ddeall materion sy'n ymwneud â'r system ADY.

Mae'n bwysig nodi y gallai oedran plentyn, ei anghenion dysgu ychwanegol, neu reswm arall gyfrif am allu plentyn i ddeall. A gallai ei alluedd newid dros amser, felly gellir ailystyried penderfyniadau am ei alluedd.

Diffinio plentyn o dan y system ADY

O dan y system ADY, mae plentyn yn berson nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Pennir oedran ysgol gorfodol gan oedran gadael yr ysgol. Yng Nghymru, gallwch adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, cyn belled â'ch bod yn troi'n 16 oed erbyn diwedd gwyliau haf y flwyddyn ysgol honno.

Er enghraifft, gall unrhyw un sy'n troi'n 16 oed yn y flwyddyn ysgol sy'n amrywio o 1 Medi 2021 i 31 Awst 2022 adael yr ysgol ddydd Gwener 24 Mehefin 2022. Bydd rhai yn 16 oed, a bydd rhai yn 15 oed ar y dyddiad hwnnw. Dyna'r dyddiad nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn blant yn y system ADY. O'r dyddiad hwnnw, pobl ifanc ydynt.

Mae'r canllawiau i bobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd yn wahanol. Gweler ein *Pobl ifanc, neu rieni, nad oes ganddynt alluded (ETW10)* [ar ein gwefan](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Dyletswyddau awdurdodau lleol ac ysgolion â phlant nad oes ganddynt alluedd

Os nad oes gan blentyn alluedd, nid oes rhaid cyflawni rhai dyletswyddau penodol a roddir i ysgolion, awdurdodau lleol a'r GIG. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y ddyletswydd i hysbysu plentyn;
- y ddyletswydd i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig i blentyn;
- y ddyletswydd i roi gwybod i blentyn bod corff (megis ysgol neu awdurdod lleol) yn bwriadu atgyfeirio mater i un o gyrff y GIG, a rhoi cyfle i'r plentyn drafod a ddylai'r atgyfeiriad gael ei wneud;
- y ddyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais gan blentyn;
- y ddyletswydd i ailystyried yn dilyn cais gan blentyn; ac
- y ddyletswydd i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gymryd dros gynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu yn dilyn cais gan blentyn.

Fodd bynnag, rhaid i'r dyletswyddau hyn barhau i gael eu cyflawni mewn perthynas â'r rhieni.

Mae'n bwysig nodi bod yn rhaid cynnwys y plentyn o hyd pan fydd corff addysg neu awdurdod lleol yn cyflawni'r holl ddyletswyddau eraill yn y system ADY. Mae hyn yn golygu y dylai cyrff addysg ac awdurdodau lleol barhau i ystyried:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn;
- pwysigrwydd sicrhau bod y plentyn yn cymryd rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau; a
- phwysigrwydd darparu'r wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i'r plentyn er mwyn ei alluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Sut mae plentyn nad oes ganddo alluedd yn arfer ei hawliau?

Os nad oes gan blentyn alluedd, gellir penodi cyfaill achos i gefnogi'r plentyn. Bydd y cyfaill achos yn sicrhau bod dymuniadau'r plentyn yn hysbys, ac yn arfer hawliau'r plentyn er budd gorau'r plentyn. Rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion gyflawni'r dyletswyddau a restrir uchod gyda chyfeillion achos yn hytrach na phlant, os nad oes gan y plentyn alluedd.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfeillion achos, ewch i ail bennod y llyfryn hwn.

Pa gymorth arall sydd ar gael?

Rhaid i blant bob amser gael mynediad at eiriolwyr annibynnol, waeth beth fo'u galluedd.

Mae gan eiriolwyr wybodaeth fanwl am y system ADY, ac maent yn cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth i blant, eu rhieni a chyfeillion achos. Maent yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol a'r llywodraeth.

Rhaid i awdurdodau lleol gyfeirio plant, eu rhieni, a chyfeillion achos at wasanaeth eirioli annibynnol os byddant yn gofyn amdano. Mae'r gwasanaeth yn gwbl rhad ac am ddim.

Sut mae galluedd plentyn yn cael ei asesu?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr athrawon yn yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn gwybod a oes ganddo alluedd ai peidio am eu bod yn gweithio gyda'r plentyn yn ddyddiol. Gall cyrff y GIG ac awdurdodau lleol hefyd asesu galluedd plentyn, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n adnabod y plentyn. Gallai eu tystiolaeth fod yn ddatganiad sy'n rhoi barn ar sail gwybodaeth am lefel galluedd y plentyn.

Os bydd plentyn neu riant yn anghytuno â phenderfyniad ysgol am alluedd plentyn, dylent ofyn i'w awdurdod lleol adolygu penderfyniad yr ysgol.

Pwy sydd â'r gair olaf am alluedd plentyn?

Y Tribiwnlys sydd â'r gair olaf am alluedd plentyn. Mae'r awdurdodau lleol yn adolygu penderfyniadau ysgolion, a'r Tribiwnlys sy'n adolygu penderfyniadau'r awdurdodau lleol.

Os nad yw plentyn neu ei riant yn cytuno â phenderfyniad awdurdod lleol ar alluedd plentyn, gallant wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad naill ai bod gan y plentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd. Bydd y Tribiwnlys yn adolygu penderfyniad yr awdurdod lleol ac yn cyhoeddi datganiad. Gall y Tribiwnlys ddibynnu ar dystiolaeth gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod y plentyn, ond efallai y bydd angen tystiolaeth arbenigol arnynt hefyd i gefnogi eu datganiad.

Efallai y bydd y Tribiwnlys hefyd am gadarnhau galluedd plentyn o'i wirfodd ei hun. Os bydd plentyn yn cyflwyno achos yn ei enw ei hun, efallai y bydd y Tribiwnlys am wirio galluedd y plentyn i sicrhau y gallant gymryd rhan, a chael gwrandawriad teg.

Beth yw datganiad o alluedd?

Penderfyniad gan y Tribiwnlys yw datganiad ynghylch a oes gan blentyn y galluedd i ddeall y system ADY a'i hawliau. Gall ddatgan bod gan blentyn y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd.

Gall plant neu eu rhieni wneud cais i'r Tribiwnlys am ddatganiad ynghylch galluedd ar unrhyw adeg, p'un a ydynt yn bwriadu cyflwyno apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys ai peidio.

Mae cyfeillion achos yn helpu plant nad oes ganddynt alluedd i arfer eu hawliau ym mhob agwedd ar y system ADY. Mae hyn yn golygu y gallant wneud cais i fod yn gyfeillion achos p'un a ydynt hefyd yn dymuno apelio neu gyflwyno hawliad i'r Tribiwnlys. Rhaid i gais i fod yn gyfaill achos ddangos tystiolaeth nad oes gan y plentyn alluedd.

Sut mae gwneud cais i'r Tribiwnlys i gael datganiad ynghylch galluedd?

Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys am ddatganiad ynghylch galluedd.

Gallwch lenwi ein ffurflen gais am ddatganiad ynghylch galluedd neu ddefnyddio'r rhestr wirio isod i wneud cais ysgrifenedig. Rhaid i bob cais gynnwys yr wybodaeth yn y rhestr wirio.

Enw a chyfeiriad y person sy'n ceisio'r datganiad ac, os ydynt ar gael, ei rif ffôn a'i gyfeiriad e-bost.	
Perthynas y ceisydd â'r plentyn.	
Enw a dyddiad geni'r plentyn.	
Enwau a chyfeiriadau pob person: <ul style="list-style-type: none"> y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu sy'n gofalu am y plentyn. Os na ddarperir enwau a chyfeiriadau'r personau hynny, eglurwch y rhesymau pam na allwch eu darparu.	
Enw a chyfeiriad ysgol y plentyn, a'r awdurdod lleol perthnasol.	
Copi o benderfyniadau'r corff llywodraethu a'r awdurdud lleol am alluedd y plentyn.	
Y rheswm neu'r rhesymau dros wneud y cais.	

<p>Tystiolaeth ategol o alluedd y plentyn, neu dystiolaeth ategol nad oes ganddo alluedd.</p> <p>Cofiwch, dyma'r galluedd penodol i ddeall gwybodaeth a dogfennau am y system ADY, a'r hyn y mae'n ei olygu i arfer hawliau o dan y system.</p>	
<p>Y datganiad yr ydych am i'r Tribiwnlys ei gyhoeddi.</p> <p>Bydd hwnnw naill ai'n datgan bod gan y plentyn y cyfeirir ato y galluedd neu nad oes ganddo'r galluedd.</p>	
<p>Llofnod y ceisydd.</p> <p>Os byddwch yn anfon cais drwy e-bost, rhaid ichi atodi llofnod electronig, neu lofnodi eich cais â llaw ac anfon copi electronig wedi'i sganio.</p>	

2. Cyfeillion achos

Cyflwyniad

Os nad oes gan blentyn alluedd, gellir penodi cyfaill achos i gefnogi'r plentyn, gwneud penderfyniadau er ei fudd pennaf, ac arfer ei hawliau. Efallai y bydd plant nad oes ganddynt alluedd yn dal i ddymuno arfer eu hawliau, a gall cyfeillion achos weithredu ar eu rhan, gan roi sylw arbennig i safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn.

Dim ond i blant nad oes ganddynt alluedd y mae cyfeillion achos ar gael. Os oes gan blentyn alluedd, mae eiriolwyr annibynnol ar gael i'w cefnogi.

Mae cyfeillion achos yn arbennig o bwysig pan fydd angen i blentyn nad oes ganddo alluedd ddwyn apêl yn ei enw ei hun, er enghraifft, pan nad oes ganddynt riant sy'n fodlon neu'n gallu datrys anghytundeb neu ddwyn achos gerbron y Tribiwnlys ar ran y plentyn.

Beth yw rôl cyfaill achos?

Mae cyfeillion achos:

- yn helpu'r plentyn ddeall a dilyn prosesau'r system ADY;
- yn gwrandao ar safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn;
- yn sicrhau bod safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno;
- yn derbyn gohebiaeth a hysbysiadau gan yr ysgol, yr awdurdod lleol neu'r Tribiwnlys;
- yn gwneud rhai penderfyniadau ar ran y plentyn;
- yn cynrychioli neu'n cefnogi'r plentyn wrth ddatrys anghytundeb;
- yn cynrychioli neu'n cefnogi'r plentyn mewn cyfarfodydd eraill; ac
- yn arfer hawl y plentyn i apelio i'r Tribiwnlys.

Pwy sy'n gallu bod yn gyfaill achos?

Bydd cyfaill achos yn rhywun:

- sy'n adnabod y plentyn yn dda;
- sy'n deall anghenion y plentyn; ac
- sydd am gynrychioli dymuniadau a safbwyntiau'r plentyn.

I fodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer bod yn gyfaill achos, rhaid i'r person:

- weithredu mewn ffordd deg a chymwys;
- peidio â chael unrhyw fuddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn;
- sicrhau bod yr holl gamau a phenderfyniadau a wneir er budd y plentyn; ac
- ystyried barn y plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

Bydd cyfaill achos yn aml yn berthynas neu'n ffrind teuluol agos i'r plentyn. Fodd bynnag, gallai cyfaill achos fod yn unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf uchod, ac nad yw ar restr waharddedig plant.

Rhaid i ddatgeliad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghyd â gwybodaeth am y rhestr waharddedig gael eu cyflwyno gyda ffurflen gais i gyfeillion achos, oni bai bod y person sy'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos yn aelod agos o'r teulu. Mae aelodau agos o'r teulu yn cynnwys:

- rhiant a llys-riant;
- brawd a llysfrawd;
- chwaer a llyschwaer;
- hanner brawd a hanner chwaer;
- tad-cu/taid a mam-gu/nain;
- ewythr a modryb; a
- nai neu nyth.

I blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu gorff arall, gallai gofalwr maeth neu weithiwr cymdeithasol y plentyn weithredu fel cyfaill achos y plentyn.

Gall eiriolwyr annibynnol a rhieni wneud cais i fod yn gyfaill achos plentyn.

Sut ydw i'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos?

Rhaid i berson sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys. Dim ond y Tribiwnlys all benodi rhywun fel cyfaill achos.

Rhaid hefyd anfon copi o'r cais at:

- y partïon sy'n rhan o unrhyw achosion sydd wedi'u cyflwyno i'r Tribiwnlys;
- rhiant y plentyn; ac
- ysgol ac awdurdod lleol y plentyn.

Gallwch lenwi ein ffurflen gais i gyfeillion achos, neu wneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r rhestr wirio isod i sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth

angenrheidiol. Rhaid i bob cais gynnwys yr wybodaeth yn y rhestr wirio hon. Cysylltwch â'r Tribiwnlys os oes angen unrhyw gymorth arnoch.

Enw a chyfeiriad y person sy'n dymuno gweithredu fel cyfaill achos y plentyn ac, os ydynt ar gael, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost y person hwnnw	
Enw a dyddiad geni'r plentyn	
Enw a chyfeiriad ysgol y plentyn a'r awdurdod lleol perthnasol	
Perthynas neu gysylltiad y person â'r plentyn	
<p>Datganiad o addasrwydd yn cadarnhau bod y person yn bodloni amodau a gofynion bod yn gyfaill achos, a'r meini prawf cymhwysra o ran gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu mewn ffordd deg a chymwys; • peidio â chael unrhyw fuddiant sy'n groes i fuddiant y plentyn; • sicrhau bod yr holl gamau a phenderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos er budd y plentyn; ac • ystyried safbwyntiau'r plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. <p>Gall hyn fod ar ffurf llythyr neu ddatganiad ysgrifenedig yn cadarnhau addasrwydd y person, ac yn esbonio pam y mae'n ymgeisydd da.</p>	
Tystiolaeth ategol i'r datganiad o addasrwydd.	
<p>Tystysgrif datgelu fanylach a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</p> <p>Nid oes angen ichi ddangos tystiolaeth o'r dystysgrif honno os ydych yn aelod agos o'r teulu, fel y nodir yn "Pwy sy'n gallu bod yn gyfaill achos?" uchod.</p>	
<p>Tystiolaeth ategol nad oes gan y plentyn alluedd o fewn ystyr system ADY.</p> <p>Gallai'r dystiolaeth honno fod ar ffurf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cadarnhad gan gorff llywodraethu'r ysgol; • cadarnhad gan yr awdurdod lleol; • datganiad ynghylch galluedd gan y Tribiwnlys; neu • farn arbenigwr perthnasol. 	
<p>Safbwyntiau rhiant y plentyn mewn perthynas â dymuniad y person i weithredu fel cyfaill achos; neu</p> <p>esboniad pam nad yw'r person yn gwybod barn y rhiant.</p>	
Llofnod y person sy'n gwneud cais i fod yn gyfaill achos y plentyn.	

Os byddwch yn anfon cais drwy e-bost, rhaid ichi atodi llofnod electronig, neu lofnodi eich cais â llaw ac anfon copi electronig wedi'i sganio.	
---	--

Beth fydd y Tribiwnlys yn ei wneud gyda'r dystysgrif datgelu fanylach?

O dan Pennod 47, adran 3(2)(a) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, caiff person ei atal rhag gweithgareddau rheoleiddiedig mewn perthynas â phlant os ydy enw'r person yn y rhestr yn Rhan 1 o Atodlen 3 o'r Ddeddf honno ('rhestr waharddedig plant').

Os byddwch am weithredu fel cyfaill achos ac os nad ydych yn berthynas agos i'r plentyn fel y disgrifir uchod, rhaid ichi amgáu tystysgrif datgelu fanylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol gyda'ch ffurflen gais.

Bydd y Tribiwnlys yn cadw cofnod o rif y dystysgrif datgelu a'r dyddiad cychwyn a'r dyddiad dod i ben. Yna caiff y dystysgrif ei hanfon yn ôl atoch trwy ddanfoniad cofrestredig.

Beth mae'r gyfraith yn ei ddweud am ddiswyddo cyfeillion achos?

Gall y Tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos os yw'n canfod:

- nad yw'r person bellach yn bodloni'r gofynion a'r meini prawf cymhwysra
- bod rheswm da arall dros ddiswyddo'r cyfaill achos.

Gall unrhyw un ofyn i'r Tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos plentyn, os oes ganddo reswm da. Rhaid i unrhyw gais sy'n gofyn i'r Tribiwnlys ddiswyddo cyfaill achos gael ei gefnogi gan dystiolaeth.

Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu'r canlynol os bydd cyfaill achos yn cael ei ddiswyddo:

- y person sy'n cael ei ddiswyddo fel cyfaill achos;
- rhiant y plentyn; ac
- ysgol ac awdurdod lleol y plentyn.

Os bydd achos apêl neu hawliad yn cael ei brosesu pan gaiff y cyfaill achos ei ddiswyddo, gellir oedi'r achos hyd nes y ceir cyfaill achos arall. Rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu partïon am ddiswyddiad cyfeillion achos, ac enw a chyfeiriad unrhyw gyfeillion achos newydd a benodir.

3. Canllawiau ar gyfer cyfeillion achos

Pa hawliau y gall cyfeillion achos eu harfer?

Rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion gyflawni dyletswyddau penodol ar gyfer plant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y ddyletswydd i hysbysu (canlyniadau asesu, peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol, etc.)
- y ddyletswydd i roi copi o gynllun neu gynllun diwygiedig i blentyn;
- y ddyletswydd i roi gwybod i blentyn bod corff yn bwriadu atgyfeirio mater i un o gyff y GIG, a rhoi cyfle i'r plentyn drafod a ddylai'r atgyfeiriad gael ei wneud;
- y ddyletswydd i adolygu cynllun yn dilyn cais gan blentyn;
- y ddyletswydd i ailystyried yn dilyn cais gan blentyn; ac
- y ddyletswydd i benderfynu a ddylai awdurdod lleol gymryd dros gynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu yn dilyn cais gan blentyn.

Os nad oes gan blentyn alluedd, nid oes angen i'w ysgol neu ei awdurdod lleol gyflawni'r dyletswyddau hyn ar gyfer plant mwyach, ond rhaid iddynt barhau i wneud hynny ar gyfer rhieni.

Os nad oes gan blentyn alluedd, ond bod cyfaill achos yn cael ei benodi, rhaid i'w ysgol neu ei awdurdod lleol gyflawni'r dyletswyddau hyn ar gyfer cyfeillion achos a rhieni.

Er enghraifft, os yw ysgol yn bwriadu cyfeirio mater at y GIG, rhaid i'r ysgol ddweud wrth y cyfaill achos eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Byddai'n rhaid iddynt hefyd roi cyfle i'r cyfaill achos drafod yr atgyfeiriad gyda'r ysgol.

Gall cyfeillion achos arfer yr holl hawliau y byddai gan y plentyn pe bai gan y plentyn alluedd.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- yr hawl i dderbyn gohebiaeth benodol gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol
- mae'r hawl i ofyn am rai elfennau o'r Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael ei ailystyried;
- yr hawl i ofyn am adolygiad o Gynlluniau Datblygu Unigol gan awdurdod lleol;
- yr hawl i ofyn i awdurdod lleol gymryd dros Gynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan ysgol;
- yr hawl i drafod unrhyw atgyfeiriadau arfaethedig i gorff y GIG;
- yr hawl i wneud apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys;
- yr hawl i dynnu eu hapêl neu hawliad eu hunain yn ôl;
- yr hawl i wneud cais am ddatganiad ynghylch galluedd.

Dylai unrhyw benderfyniad y mae cyfaill achos yn ei wneud fod er budd y plentyn, a dylai ystyried safbwyntiau'r plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Ni ddylai fod gan gyfeillion achos unrhyw fuddiant arall ar wahân i fuddiant y plentyn wrth wneud unrhyw benderfyniad ar ran y plentyn.

Dylai cyfeillion achos annog y plentyn i gymryd rhan mor llawn ag sy'n bosibl yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylai ysgol y plentyn a'r corff sy'n gyfrifol am ei addysg annog hynny hefyd. Pan fo'n briodol, ac yn bosibl, dylai plant a/neu eu cyfeillion achos fynychu cyfarfodydd am anghenion dysgu ychwanegol y plentyn. Byddai hynny'n unol ag egwyddorion arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n egwyddorion y dylai ysgolion fod yn eu dilyn.

Pa help sydd ar gael i gyfaill achos?

Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor i gyfeillion achos am:

- anghenion dysgu ychwanegol, a
- gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Gall gwybodaeth a chyngor gynnwys materion fel:

- gwasanaethau datrys anghytundebau; a
- gwasanaethau eirioli annibynnol a sut i gael gafael ar y gwasanaeth.

Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn rhoi'r cyfaill achos mewn cysylltiad â gwasanaethau eirioli annibynnol a all helpu gyda'r apêl neu'r hawliad. Mae gan eiriolwyr wybodaeth fanwl am y system anghenion dysgu ychwanegol, ac maent yn cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth i blant, eu rhieni a chyfeillion achos. Maent yn annibynnol ar yr awdurdodau lleol a'r llywodraeth, ac mae eu gwasanaeth yn gwbl rad ac am ddim.

Gall fod cyllid cymorth cyfreithiol ar gael i blentyn. Os ydy hynny'n wir, bydd angen gwneud cais am gymorth cyfreithiol. Gall cymdeithas y gyfraith neu gyngor ar bopeth lleol roi enwau cyfreithwyr sydd yn rhedeg y cynllun cymorth cyfreithiol. Yna, efallai y bydd y cyfaill achos yn gallu cael cyfarfod â chyfreithiwr i ofyn am gyngor i baratoi apêl neu hawliad ar ran y plentyn.

Ydy'r broses o wneud apêl neu hawliad yn wahanol i gyfaill achos?

Nac ydy. Mae'r broses ar gyfer gwneud apêl neu hawliad yr un fath â'r un ar gyfer plant a rhieni. Ym mhob achos, rhaid llenwi ffurflen gais apêl neu hawliad a'i hanfon i'r Tribiwnlys. Gwelwch ein llyfryn canllaw *Canllawiau apêl (ETW2)* i gael rhagor o wybodaeth.

Os bydd cyfeillion achos yn gwneud cais i'r Tribiwnlys, bydd disgwyl iddynt baratoi datganiadau achos, a mynychu'r Tribiwnlys. Y cyfaill achos sy'n delio â'r cais, fel sy'n wir i blant a rhieni sydd â hawliau i wneud cais i'r Tribiwnlys – ond maent yn gweithredu er budd y plentyn

Fodd bynnag, rhaid i gyfeillion achos lenwi a dychwelyd *Ffurflen gais ffrind achos (ETW13)*, a chael eu penodi i'r Tribiwnlys cyn iddynt allu arfer unrhyw hawliau. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen [o'n gwefan](#), neu gysylltu â ni os hoffech gael copi drwy'r post.

Oes angen caniatâd rhiant y plentyn ar gyfaill achos i wneud apêl neu hawliad?

Nac oes, does dim angen caniatâd rhiant plentyn ar gyfaill achos i wneud apêl neu hawliad.

Rydyn ni'n gofyn i gyfeillion achos roi gwybod inni am farn y plentyn a rhiant y plentyn am yr apêl neu'r hawliad.

Yn yr un modd, lle mae rhiant wedi gwneud apêl neu hawliad, bydd angen iddyn nhw roi gwybod inni am farn y plentyn am yr apêl neu'r hawliad.

Sut alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fod yn gyfaill achos?

I gael rhagor o wybodaeth am gyfeillion achos, awgrymwn eich bod yn cyfeirio at y dogfennau canlynol. Rydyn ni wedi nodi'r adrannau sydd o ddefnydd arbennig i gyfeillion achos, ond mae'r holl wybodaeth yn y dogfennau yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i gyfeillion achos.

Mae dolenni i'r dogfennau hyn ar frig y llyfryn canllaw hwn, o dan "Adnoddau gwybodaeth".

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

- Paragraffau 1.52 – 1.58
- Pennod 4: Cynnwys a chefnogi plant, eu rheini a phobl ifanc
- Pennod 6: Cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY
- Pennod 30: Cyfeillion achos ar gyfer plant nad oes ganddynt alluedd
- Pennod 32: Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol

Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

- Adrannau 59 – 64: Plant nad oes ganddynt alluedd a chyfeillion achos.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

- Adran 69: Gwasanaethau eirioli annibynnol
- Adran 84: Galluedd plant
- Adran 85: Cyfeillion achos i blant nad oes ganddynt alluedd